## CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 18 Gorffennaf 2017 am 10.00 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth; Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc; Brian Jones, Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy; Richard Mainon, Aelod Arweiniol Datblygu Seilwaith Cymunedol; Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, a Mark Young, Aelod Arweiniol Safonau Corfforaethol.

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Jeanette Chamberlain-Jones, Martyn Holland, Gwyneth Kenlser, Glenn Swingler, Rhys Thomas, Huw Williams ac Emrys Wynne

### HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Economi a Pharth Cyhoeddus (RM); Penaethiaid Gwasanaeth: Y Gyfraith, AD a'r Gwasanaethau Democrataidd (GW), Cyllid / Swyddog 151 (RW), Cyfleusterau, Asedau a Thai (JG), Addysg a Gwasanaethau Plant (KE); Prif Reolwr Cefnogi Addysg (GD); Rheolwr Rhaglen Moderneiddio Addysg (JC); Rheolwr Rhaglen Newid Busnes (TB); Rheolwr Prisio ac Ystadau (GT) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

### PWYNTIAU SYLW

Fe wnaeth yr Arweinydd -

- groesawu a chyflwyno'r ddau Aelod Cabinet newydd – y Cynghorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy a'r Cynghorydd Mark Young, Aelod Arweiniol Safonau Corfforaethol, a
- adrodd ar ymadawiad Rebecca Maxwell, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus ym mis Medi a diolchodd iddi am ei gwaith gwerthfawr yn ystod ei chyfnod yn Sir Ddinbych, yn enwedig o ran yr economi ac adfywio'r Rhyl, a dymunodd ddymuniadau gorau ar gyfer y dyfodol ar ran y Cabinet a'r Cyngor.

### 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd yr aelodau canlynol gysylltiad personol yn eitem 5 ar y rhaglen -

Y Cynghorydd Martyn Holland - Llywodraethwr Ysgol Bro Famau
Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts – Llywodraethwr AALl a Rhiant

Y Cynghorydd Tony Thomas – Llywodraethwr Ysgol y Santes Ffraid
Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill - Llywodraethwr Ysgol Clawdd Offa
Y Cynghorydd Emrys Wynne – Llywodraethwr Ysgol Borthyn
Y Cynghorydd Mark Young – Llywodraethwr Ysgol Uwchradd Dinbych

Datganodd y Cynghorydd Richard Mainon gysylltiad personol sy'n rhagfarnu yn eitem 12 ar y rhaglen oherwydd bod aelodau o'i deulu'n cael eu cyflogi yng Nghastell Bodelwyddan.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2017.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2017 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.*

## 5 POLISI CLUDIANT DYSGWYR SIR DDINBYCH

Cyflwynodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts yr adroddiad yn nodi'r adborth yn dilyn ymgynghoriad ar Bolisi Cludiant Dysgwyr newydd Sir Ddinbych ac yn argymell y dylid mabwysiadu'r polisi o 1 Medi 2018.

Darparwyd rhywfaint o hanes y polisi a fu'n destun y broses archwilio ac wedi'i ystyried yn y Cyngor Sir ar 4 Gorffennaf pan benderfynwyd y dylid cymeradwyo cyflwyno'r polisi i'r Cabinet i'w fabwysiadu. Cyfeiriwyd hefyd at y broses ymgynghori ac adborth a ddefnyddiwyd i hysbysu'r ddogfen derfynol. Mae'r polisi newydd wedi'i groesawu ac yn cael ei ystyried fel gwelliant sylweddol, gan ddarparu dull sy'n fwy cyfartal na'r polisi blaenorol. Roedd y prif newidiadau yn cynnwys y broses apeliadau dau gam a'r defnydd o bwerau disgresiwn mewn achosion penodol. Byddai'r polisi terfynol hefyd yn destun rhai newidiadau mân fel yr argymhellwyd gan y pwyllgor Archwilio ac yn y Cyngor Sir.

Nododd y Cabinet y broses ymgynghori gynhwysfawr a gwaith archwilio manwl y polisi newydd ac roeddent yn falch o nodi'r newidiadau cadarnhaol a wnaed i ddarpariaeth cludiant i ddysgwyr yn dilyn adborth gan aelodau etholedig a'r cyhoedd.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*

*(a) Cadarnhau bod yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 5 yr adroddiad) wedi'i ddarllen a'i ddeall, ac*

*(b) Ar ôl ystyried yr wybodaeth yn yr adroddiad a'r broses ymgynghori benodol, yn cymeradwyo mabwysiadu Polisi Cludiant Dysgwyr newydd Sir Ddinbych o 1 Medi 2018 yn amodol ar fân addasiadau a godwyd gan y pwyllgor archwilio a'r Cyngor llawn.*

## 6 RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF - CYNIGION BAND B

Cyflwynodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Rhaglen Amlinellol Strategol ddrafft (Cynigion Band B) ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r Rhaglen Addysg i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Tynnwyd sylw'r Cabinet at y cynigion ar gyfer buddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol yn rownd nesaf y rhaglen gyllid yn seiliedig ar ardaloedd adolygu â blaenoriaeth fel a ganlyn-

- Adolygiad o Ddarpariaeth Dinbych gan gynnwys Ysgol Plas Brondyffryn (cais am £23.6m).
- Darpariaeth Ysgolion Cynradd y Rhyl (cais am £5.15m)
- Canolfan i ddarparu cymorth bugeiliol ychwanegol i ddisgyblion (cais am £3.95m)
- Adolygiad o Ddarpariaeth Llangollen (cais am £11.9m)
- Estyniad yn Ysgol y Faenol, Bodelwyddan (cais am £900mil)

Byddai'r cynigion yn destun cymeradwyaeth LlC ac argaeledd cyllid ac ni ellir gwarantu y byddai'r prosiectau yn cael eu cyflawni. Byddai'r cais cyffredinol yn costio £32m i'r Cyngor ac nid oedd unrhyw gyllid wedi'i gytuno i gefnogi cyfraniad y Cyngor ar y cam hwn a fyddai'n destun trafodaethau yn y rowndiau cyllid yn y dyfodol. Os na fydd buddsoddi mewn ysgolion yn cael ei nodi'n flaenoriaeth, bydd angen lleihau maint y Rhaglen yn sylweddol. Tynnodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill sylw at yr angen i drafod y buddsoddiad sydd ei angen mewn ysgolion eraill sydd y tu hwnt i raglen cyllid Ysgolion yr 21ain Ganrif gan gyfeirio'n benodol at y sefyllfa yn Ysgol Uwchradd Prestatyn.

Atebodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion y cwestiynau fel a ganlyn –

- roedd y cynigion wedi'u cyflwyno yn seiliedig ar gyfradd ymyrraeth o 50/50 ar gyfer prosiectau cyfalaf traddodiadol ac roedd LlC wedi nodi y byddai'r prosiectau yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r rhai a gyflwynir gan awdurdodau lleol eraill gan mai dim ond swm penodol o gyllid oedd ar gael – nid oedd y cynigion wedi'u cyflwyno yn nhrefn blaenoriaeth a byddai canlyniadau trafodaethau gyda LlC yn cael eu hadrodd yn ôl.
- ymhelaethu ar y ddau ddewis cyllid (1) llwybr cyfalaf traddodiadol a (2) Model Buddsoddiad Cydfuddiannol (MIM) a oedd yn denu cyfradd o 75% LlC / 25% Awdurdod Lleol. Nid oedd cynigion a fyddai'n denu cyllid MIM wedi'u cyflwyno ar y cam hwn oherwydd y safbwynt cychwynnol oedd na fyddai'n ddewis cyllid addas ar gyfer Sir Ddinbych. Roedd MIM yn debyg i gytundeb Cynllun Ariannu Preifat, ac roedd y manylion yn cael eu profi ar hyn o bryd i asesu sut y byddai'n diwallu anghenion Sir Ddinbych.
- nid oedd y meini prawf ar gyfer y cam hwn yn y rhaglen gyllid yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar leoedd dros ben ond roedd yn fater i'w ystyried oherwydd yr aneffeithlonrwydd yr oedd yn ei greu. Cyfeiriwyd at ddogfen ymgynghori gan LlC yn ddiweddar ynglŷn ag ysgolion gwledig bychan a allai weld newid yn y pwyslais ar y math hwnnw o ddarpariaeth addysgol. Roedd y swyddogion wedi

parhau â'r un dull a ddefnyddiwyd ar gyfer Band A o ran ystyried yr ardal gyfan a chyd-destun cyflwr ac addasrwydd yr adeilad a lle bo diffygion yn y ddarpariaeth addysgol.

Cytunodd y Cabinet y defnyddiwyd dull synhwyrol er mwyn llunio'r cynigion.

***PENDERFYNWYD –***

*(a) bod y Rhaglen Amlinellol Strategol ddrafft ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif ac Addysg yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru, a*

*(b) bod y Cabinet yn cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3 yr adroddiad) fel rhan o'u hystyriaethau.*

## 7 PENODI AELODAU I GYRFF ALLANOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans yr adroddiad ar adolygu a phenodi aelodau i gyrff allanol a oedd yn ofynnol yn dilyn etholiadau llywodraeth leol a llunio'r Cyngor newydd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Evans at y broses adolygu a gynhaliwyd er mwyn sicrhau penodiadau addas i gyrff allanol priodol ac fe gyflwynodd ddiwygiad i'r argymhelliad i gymeradwyo'r penodiadau a nodwyd yn yr adroddiad heblaw pedwar sefydliad lle byddai'r penodiadau yn cael eu gwneud drwy benderfyniad dirprwyol yn dilyn ymgynghori pellach gyda'r aelodau. Ymhelaethodd Pennaeth y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd ar y broses ymgynghori a gynhaliwyd gyda'r cyrff allanol a'r aelodau etholedig o ran penodiadau a nodwyd bod angen gwybodaeth bellach cyn y gellir cadarnhau penodiadau i rai o'r cyrff allanol. Byddai penodiadau i gyrff allanol nad oeddent wedi'u cynnwys yn yr adroddiad yn destun adroddiadau penderfyniad dirprwyol yn y dyfodol neu'n cael eu hystyried gyda'i gilydd yn y Cabinet pe bai nifer o benodiadau angen eu cymeradwyo ar yr un pryd. Anogwyd yr Aelodau i gyflwyno eu safbwyntiau ar unrhyw benodiadau sy'n weddill a fyddai'n cael eu hystyried fel rhan o'r broses i benodi.

Cymerodd yr Aelodau'r cyfle i drafod yr adroddiad gyda Phennaeth y Gyfraith, AD a'r Gwasanaethau Democrataidd fel a ganlyn-

- Cymdeithas Tai Clwyd Alyn – fel cyn-gynrychiolydd y Cyngor ar y corff hwnnw eglurodd y Cynghorydd Bobby Feeley ei bod yn cefnogi'r penodiad a argymhellwyd, sef bod y Cynghorydd Emrys Wynne yn derbyn y rôl honno
- Eglurodd y Cynghorydd Martyn Holland bod angen rhagor o wybodaeth er mwyn galluogi cynghorwyr i fewnbynnu at y broses yn well. Roedd hefyd yn teimlo y dylid datblygu mecanweithiau priodol er mwyn i'r cynrychiolwyr adrodd yn ôl i'r Cyngor. Ymatebodd y Pennaeth Gwasanaeth y byddai gwybodaeth bellach, ynglŷn â'r cyrff sy'n weddill y mae angen i'r Cyngor benodi cynrychiolwyr iddynt, yn cael ei dosbarthu i'r aelodau ar ôl derbyn yr wybodaeth berthnasol. Eglurodd hefyd bod y gofynion ar gyfer penodiadau penodol yn amrywio rhwng y sefydliadau, ynghyd â'r lwfansau/treuliau sy'n daladwy. Lle bo gan gyrff allanol eu system eu hunan o ad-dalu, roedd yn cael ei ddefnyddio, ac mewn achosion eraill gellir cyflwyno hawliad drwy gynllun lwfans y Cyngor.

Roedd hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn ymwneud â chyfrifoldebau aelodau ar gyrff allanol ac o ran atebolrwyddau roedd gan y Cyngor brotocol a chanllawiau mewn perthynas â'r gwahanol rolau a'r indemniad a gynigir, y gellir eu dosbarthu. Byddai'r mater o ran mecanweithiau adrodd ar gyfer y cynrychiolwyr hynny'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

- Adroddodd y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones ar ei phrofiad fel aelod ar Baneli Mabwysiadu a Maethu a thynnu sylw at yr anghysondebau rhwng y lwfansau sy'n daladwy. Teimlai y dylai bod mwy o ymwybyddiaeth o'r rolau hyn, yn enwedig ar gyfer aelodau newydd, ac y dylid cynnwys y cyfarfodydd hynny yng nghalendr yr aelodau. Cytunodd y Pennaeth Gwasanaeth i ystyried ymarferoldeb cynnwys y cyfarfodydd hynny yng nghalendr yr aelodau. Ymhelaethodd hefyd ar y lwfansau sy'n daladwy mewn perthynas â gwahanol gyrff, gan gynnwys anghysondebau rhwng rhai aelodau ar y Panel Mabwysiadu a'r gwahaniaeth rhwng aelodau annibynnol a chynghorwyr.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo penodiad aelodau i gyrff allanol fel yr argymhellir yn Atodiad 1 yr adroddiad gan eithrio Partneriaeth AHNE Bryniau Clwyd; Grŵp Gweithredu Lleol Sir Ddinbych, Cadwyn Clwyd; Hosbis St Kentigern; (Ymddiriedolaeth) Llanelwy a Thribiwnlys Prisio Cymru, a bydd penodiadau'r rhain yn cael eu gwneud drwy benderfyniad dirprwyol yn dilyn ymgynghori pellach gyda'r aelodau mewn perthynas â'r penodiadau hyn.*

## 8 STRATEGAETH RHEOLI ASEDAU

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill y Strategaeth Rheoli Asedau i'w chymeradwyo a'i mabwysiadu.

Roedd y Strategaeth Rheoli Asedau newydd wedi'i datblygu mewn ymateb i gyllidebau tynnach a dyletswyddau newydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn nodi ymagwedd gorfforaethol y Cyngor i reoli ei asedau. Roedd y strategaeth ddrafft wedi bod yn destun ymgynghoriad ac roedd dadansoddiad cryno o'r ymatebion wedi'i gynnwys yn yr adroddiad ynghyd â'r newidiadau o ganlyniad i hynny ac yn dilyn trafodaethau gyda Swyddfa Archwilio Cymru.

Ychwanegodd y Cynghorydd Thompson-Hill fod y strategaeth newydd yn atgyfnerthu'r broses ac yn sicrhau y defnyddir dull sy'n fwy cyfannol gan gysylltu â dogfennau allweddol eraill. Ymhelaethodd hefyd ar y pedwar prif amcan yn nogfen y strategaeth ynghyd â'r camau gweithredu sy'n ategu at y canlyniadau hynny. Tynnwyd sylw at rôl y Grŵp Rheoli Asedau a oedd yn darparu lefel briodol ar gyfer gwneud penderfyniadau ac roedd y cyfarfodydd yn agored i'r holl aelodau i sicrhau mwy o dryloywder yn y broses. Roedd yr Asesiad o Effaith ar Les wedi dangos effaith gadarnhaol yn gyffredinol.

Tynnodd yr Arweinydd sylw at bwysigrwydd y ddogfen i gynorthwyo'r Cyngor i ddiwallu ei amcanion a blaenoriaethau a oedd yn cynnwys y potensial ar gyfer buddsoddi ynghyd â gwaredu asedau a oedd wedi peri rhywfaint o bryder. Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar Ganlyniad 4 – capasiti a gwydnwch cymunedol. Nododd yr aelodau bod y canlyniad hwn wedi'i ychwanegu yn dilyn ymgynghoriad

gyda Grwpiau Ardal Aelodau ac y byddai angen gwaith pellach i ddatblygu'r canlyniad ymhellach. Roedd y Cabinet yn falch o nodi ei fod wedi'i ychwanegu a thynnwyd sylw at yr angen i fod yn ymwybodol o heriau seilwaith yn y gymuned a bod angen ystyried yr effaith ar y gymuned wrth ystyried gwaredu. Roedd rhywfaint o'r drafodaeth yn canolbwyntio ar y cynigion ar gyfer Llyfrgell Rhuthun a sut y gellir gwella'r broses ymgynghori ar gyfer cynlluniau'r dyfodol er mwyn rhannu gwybodaeth ac ymgysylltu â budd-ddeiliaid a'r gymuned ar gam cynnar yn y broses ynglŷn â manteision cynigion penodol i sicrhau cefnogaeth leol a chreu canlyniad cadarnhaol ar gyfer pawb. Cyfeiriodd y swyddogion at y broses o ymgysylltu ac ymgynghori a nodwyd bod y strategaeth yn pwysleisio ar weithio gyda'r gymuned a Chynghorau Dinas/ Tref /Cymuned wrth ystyried derbyniadau a gwarediadau. Ychwanegodd y Cabinet efallai y byddai rhai asedau yn anodd eu gwaredu a thynnwyd sylw at yr angen i ddiogelu rhag gadael yr asedau yn wag.

Nodwyd bod Rheoli Asedau wedi'i nodi yn Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru fel maes i fynd i'r afael ag ef ac roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwybodol o'r strategaeth ac yn fodlon a'i chynnwys.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo ac yn mabwysiadu'r Strategaeth Rheoli Asedau.*

## 9 GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL - CYLCH GORCHWYL

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Cylch Gorchwyl diwygiedig y Grŵp Buddsoddi Strategol.

Darparwyd rhywfaint o gefndir a arweiniodd at sefydlu'r Grŵp Buddsoddi Strategol presennol, sef grŵp o aelodau etholedig/swyddogion, a oedd yn gwerthuso cynigion ar gyfer gwariant cyfalaf. Roedd y cylch gorchwyl yn cynnwys pwerau dirprwyol ac felly roedd yn briodol bod y Cabinet yn eu cadarnhau ac yn eu diweddaru'n gyffredinol i adlewyrchu'r arferion presennol, ac roeddent yn awr yn cynnwys cyfeiriad at Wariant Cyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai. Bydd y cylch gorchwyl wedi’i ddiweddaru'n sicrhau bod y Grŵp Buddsoddi Strategol yn parhau i roi asesiad effeithiol a swyddogaeth rheoli mewnol. Roedd aelodaeth y Grŵp Buddsoddi Strategol yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Cabinet a'r Pwyllgorau Archwilio.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo Cylch Gorchwyl diwygiedig y Grŵp Buddsoddi Strategol fel y nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad.*

## 10 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni. Rhoddodd y crynodeb canlynol o sefyllfa ariannol y Cyngor-

- rhagwelwyd tanwariant net o £0.432miliwn ar gyfer cyllidebau gwasanaethau a chyllidebau corfforaethol
- arbedion effeithlonrwydd gwasanaeth gwerth £0.902m a oedd wedi’u cytuno eisoes fel rhan o'r gyllideb, gyda'r rhagdybiaeth y byddai’r cyfan yn cael ei ddarparu – byddai unrhyw eithriadau’n cael eu hadrodd i'r Cabinet pe bai angen

- ychydig iawn o amrywiadau oedd i'w hadrodd ar y cam hwn yn y flwyddyn ariannol, ond roedd nifer o bwysau gwasanaeth wedi'u nodi sydd angen eu monitro'n ofalus, a
- darparodd ddiweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, y Cynllun Cyfalaf Tai a'r Cynllun Cyfalaf (gan gynnwys yr elfen Cynllun Corfforaethol)

Gofynnwyd hefyd i'r Cabinet gymeradwyo trosglwyddo £653 mil o'r tanwariant Corfforaethol i Gronfa Wrth Gefn y Blaenoriaethau Corfforaethol er mwyn cynorthwyo i gyflwyno'r Blaenoriaethau Corfforaethol newydd sy'n cael eu datblygu.

Eglurwyd y materion canlynol wrth drafod –

- Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata - roedd y gorwariant a ragwelir ar gyfer costau TG yn cynrychioli'r rhagamcan presennol ar gyfer diwedd y flwyddyn ariannol, ac roedd y gwasanaeth yn ystyried mesurau lliniaru gyda'r nod o gyrraedd sefyllfa gytbwys. Anogir gwasanaethau i dynnu sylw at bwysau yn gynnar er mwyn gallu mynd i'r afael â nhw cyn gynted â phosib.
- Cludiant Ysgol – roedd cost gweithredu'r polisi newydd yn anhysbys ar hyn o bryd a byddai'n cael ei fonitro'n ofalus drwy gydol y flwyddyn
- Ysgolion – roedd cynlluniau adfer ariannol ar fin cael eu cytuno gydag ysgolion â diffyg ariannol a byddent yn cael eu monitro'n barhaus, byddai unrhyw bryderon ynglŷn â'r rhain yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
- Datblygiad Harbwr y Rhyl - roedd trafodaethau yn parhau gydag adeiladwyr y bont i sicrhau bod amserlen cynnal a chadw priodol ar waith yn hirdymor.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*

*(a)* *nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2017/18 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni, ac*

*(b)* *Yn cymeradwyo trosglwyddo £653 mil o'r tanwariant Corfforaethol i Gronfa Wrth Gefn y Blaenoriaethau Corfforaethol er mwyn cynorthwyo i gyflwyno'r Blaenoriaethau Corfforaethol newydd sy'n cael eu datblygu.*

## 11 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried ac roedd dwy eitem ychwanegol wedi'u hychwanegu at y rhaglen waith ar gyfer mis Medi ynglŷn â Chynhyrchu Incwm Corfforaethol/ Ffioedd a Thaliadau ac Ad-dalu Dyledion.

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

### Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

***PENDERFYNWYD*** *dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Rhan 4 Atodlen 12A Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.*

## 12 CASTELL BODELWYDDAN

[Datganodd y Cynghorydd Richard Mainon gysylltiad personol sy'n rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod wrth i’r eitem hon gael ei thrafod.]

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad cyfrinachol ynglŷn â dyfodol Castell Bodelwyddan.

Darparwyd rhywfaint o wybodaeth gefndir i'r Cabinet ynglŷn â derbyn Ystâd Castell Bodelwyddan gan gyn-Gyngor Sir Clwyd ym 1984 ynghyd â rheolaeth ei weithrediad hyd yn hyn. Roedd yr adroddiad yn nodi cynigion gwaredu rhydd-ddaliad Gwesty Castell Bodelwyddan a rhan o'r ystâd tra'n cadw ardaloedd eraill gan eu gweithredu fel Parc Gwledig gyda mynediad cyhoeddus. Roedd manylion y goblygiadau ariannol wedi'u nodi'n glir yn yr adroddiad ac ymatebodd y swyddogion i'r cwestiynau ynglŷn â'r ystyriaethau ariannol a chyfreithlondeb y cynigion a darparu sicrwydd ynglŷn â darpariaeth cynnal a chadw yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD –***

*(a) Y dylai'r Cyngor gynnal trafodaethau gyda thrydydd parti a enwyd ar gyfer gwerthu'r budd rhydd-ddaliad gyda meddiant gwag.*

*(b) I drafod telerau ar gyfer gwaredu rhydd-ddaliad Gwesty Castell Bodelwyddan (sy'n las ar gynllun 2 a oedd ynghlwm i'r adroddiad), i drydydd parti a enwyd am y swm a nodwyd yn yr adroddiad;*

*(c) I drafod telerau ar gyfer gwaredu rhydd-ddaliad i drydydd parti a enwyd ar gyfer rhan o Ystâd Castell Bodelwyddan, gan gynnwys adeiladau Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan, maes parcio, lawntiau, arena digwyddiadau a choetir (sy'n destun prydles 125 mlynedd i Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan) am y swm a nodwyd yn yr adroddiad;*

*(d) Bod y Cyngor yn cadw'r tir parc presennol, gan gynnwys ffosydd y rhyfel byd cyntaf a'r maes parcio ynghyd â phrydles 125 mlynedd ar gyfer y coetir. Bydd yr ardaloedd hyn yn cael eu rhedeg gan y Gwasanaethau Cefn Gwlad fel Parc Gwledig gyda mynediad cyhoeddus;*

*(e) Y cedwir y tir amaethyddol fel rhan o Ystâd Amaethyddol y Cyngor, a*

*(f) bod y Cabinet yn cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les, ynghlwm i'r adroddiad fel rhan o'u hystyriaethau.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.30 a.m.